

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Oddi wrth: Llywodraeth Cymru**

**Dyddiad: 10 Hydref 2018**

**Lleoliad: Senedd Bae Caerdydd**

**Teitl: Papur tystiolaeth ar Addysg Bellach ac Addysg Uwch**

### Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cynnwys tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar addysg bellach (AB) ac addysg uwch (AU). Mae'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer pob sector, yn y meysydd o ddiddordeb a nodwyd yn llythyr y Cadeirydd dyddiedig 20 Awst 2018.

#### 1. Diweddariad cyffredinol

Mae'r sectorau addysg uwch ac addysg bellach yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi, cyfiawnder cymdeithasol, gwasanaethau cyhoeddus a diwylliant yng Nghymru ac i amcanion Llywodraeth Cymru drwy ddarparu addysg, hyfforddiant, ymchwil, arloesedd ac ymgysylltu o safon uchel. Mae trosiant y sectorau yn £1.5 biliwn o ran AU<sup>1</sup> a £0.5 biliwn o ran AB ac maent yn cyflogi tua 29,000 o staff cyfwerth ag amser llawn (21,000 AU<sup>2</sup> ac 8,000 AB). O ran canlyniadau, mae dros 40,000 o fyfyrwyr yn graddio o AU bob blwyddyn, ac o ran AB cafodd 194,000 o weithgareddau dysgu eu cwblhau gan 111,000 o ddysgwyr (blwyddyn academaidd 2016/17).

Mae addysg uwch yn sector cystadleuol yn fyd-eang. Er mwyn osgoi tanseilio gallu ein sefydliadau i gystadlu ar lwyfan byd-eang, mae'n hanfodol bod prifysgolion Cymru yn parhau i allu recriwtio talent o'r UE a thu hwnt, cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a rhwydweithiau ymchwil rhyngwladol ar y cyd, cynnig cymwysterau a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol a denu myfyrwyr o'r UE a gweddiill y byd.

Er bod Addysg Bellach yn dueddol o weithredu mewn marchnad sy'n fwy lleol, mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o opsiynau hyfforddi academaidd a galwedigaethol ac mae angen inni sicrhau bod y cymwysterau hyn yn drosglwyddadwy. Addysg Bellach, os caiff ei darparu mewn ysgolion neu golegau, yw'r allwedd i lwyddiant y genedl yn y dyfodol. Mae'n galluogi dilyniant i ddysgu ar lefel uwch (yn aml mewn partneriaeth â phrifysgolion); mae'n cynnal yr economi sylfaenol; mae'n galluogi oedolion i wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd; mae'n cynorthwyo cynhwysiant cymunedol drwy ddarparu Saesneg ar gyfer Siaradwyr

---

<sup>1</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Staff-and-Finance/financeofheis-by-category-year>

<sup>2</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Staff-and-Finance/staffatwelshheis-by-gender-institution-year-modeofemployment>

leithoedd Eraill; mae'n helpu cyflogwyr i wella sgiliau eu gweithlu ac yn hwyluso darparu gwasanaethau cymdeithasol a chyhoeddus pwysig. Mae'r darpariaethau yn dueddol o gyd-fynd â'r ardal economaidd y mae pob coleg yn gweithredu ynddi a chaiff dysgu yn y gwaith ei gefnogi gan ein rhaglen prentisiaethau flaenllaw, a gaiff ei chyllido'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

### Cymorth i Fyfirwyr Addysg Uwch

Mae Llywodraeth Cymru, drwy Gyllid Myfirwyr Cymru, yn darparu benthyciadau a grantiau i fyfirwyr cymwys Cymru lle bynnag y maent yn dewis astudio yn y DU. Yn dilyn yr adolygiad annibynnol cynhwysfawr o gyllid addysg uwch a threfniadau cyllid myfirwyr yng Nghymru (Adolygiad Diamond), mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cyflwyno pecyn cymorth newydd i fyfirwyr sy'n dechrau eu cwrs o'r flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen.

Wrth wraidd y system newydd mae newid ffocws ym maes cymorth i israddedigion tuag at helpu gyda chostau byw. Un o brif negeseuon myfirwyr ac Undeb Cenedlaethol y Myfirwyr yw mai costau byw o ddydd i ddydd sy'n achosi'r pryder mwyaf i fyfirwyr. Mae'n un o'r prif resymau pam nad yw myfirwyr yn gallu ystyried dechrau ar gwrs addysg uwch neu'n waeth na hynny, yn achosi iddynt roi'r gorau iddi heb gwblhau eu cwrs yn llwyddiannus.

Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno system gymorth deg a chynaliadwy lle bydd yr holl fyfirwyr o Gymru yn derbyn cymorth sy'n gyfwerth â chyflog byw cenedlaethol y DU. Bydd y cymorth yn amodol ar brawf modd a bydd yn gymysgedd o fenthyciadau a grantiau. Mae hyn yn golygu y bydd myfyriwr llawn amser o Gymru sy'n byw i ffwrdd o gartref (y tu allan i Lundain) yn gymwys ar gyfer cymorth cynhaliaeth gwerth £9,000 - bydd myfirwyr o gefndir yr incwm aelwyd isaf (hyd at £18,370) yn cael grant llawn o tua £8,100 a benthyciad o £900 tuag at eu costau byw (os ydynt yn byw i ffwrdd o gartref, y tu allan i Lundain).

Mae ein 'dull system gyfan' yn golygu mai Cymru fydd yr unig wlad yn Ewrop i ddarparu cymorth cynhaliaeth cyfwerth, ar ffurf a benthyciadau, i israddedigion rhan amser a llawn amser ac, o 2019, bydd yn cael ei ymestyn i gynnwys myfirwyr ôl-raddedig. Yn ei dro, bydd y newid hwn mewn ffocws yn caniatáu i Lywodraeth Cymru fuddsoddi rhagor yn ein sefydliadau addysg uwch i sicrhau eu bod yn gallu cystadlu o fewn y DU ac yn rhyngwladol.

### Cyflog Byw

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2017, cafodd Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi ei lofnodi gan brifysgolion Cymru. Mae hon yn garreg filltir nodedig gan mai ein sefydliadau oedd y cyntaf i ymrwymo fel sector, ac mae'n cynnwys ymrwymiad ychwanegol i weithio tuag at fod yn Gyflogwyr Cyflog Byw. Mae'r gwaith yn cael ei gydlynu gan Gonsortiw Pwrcasu Addysg Uwch Cymru. Mae'r prifysgolion wrthi'n datblygu eu dogfennau a'u cynlluniau gweithredu mewn ymateb i ymrwymadau'r Cod. Sefydlwyd gweithgor gan staff caffael ar draws y prifysgolion yng Nghymru i gefnogi rhoi'r Cod Ymarfer ar waith. Mewn cyfarfod â swyddogion, nododd y Consortiw Pwrcasu fod yr holl

Sefydliadau Addysg Uwch wedi ymateb a bod eu hadborth wrthi'n cael ei gynnwys mewn adroddiad ar y cyd.

Mae'r sector wedi ymrwymo i dalu cyflog byw y Sefydliad Cyflog Byw i bob aelod o staff AU a gyflogir yn uniongyrchol erbyn 2018/19 ac i ddechrau'r broses o dalu'r cyflog byw ar draws eu gweithgaredd AU sydd ar gontract allanol, o 2018/19 ymlaen ac mae CCAUC wrthi'n gweithio ar hyn o bryd gyda'r sefydliadau i sicrhau eu bod yn ennill achrediad ffurfiol.

### Llwyddiannau

#### *Cenhadaeth Ddinesig*

Mae'r sector yn parhau i weithio'n galed i ddatblygu ei genhadaeth ddinesig ac mae wrthi'n datblygu portffolio ehangach o weithgareddau yn ei gymunedau lleol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen Fentora Ffiseg sy'n cael ei arwain gan Brifysgol Caerdydd a 35 prosiect arbennig gyda gweithgareddau yn amrywio o gorau i'r digartref, a mentrau llywodraethwyr ysgol, i ddarparu lle ar gyfer busnesau newydd myfyrwyr a graddedigion a'u mentora. I gyd-fynd â hyn, mae digwyddiad a chyhoeddiad CCAUC Torri Tir Newydd – Ar Dir Cyffredin yn rhoi sylw i weithgareddau cenhadaeth ddinesig ac ymyriadau mwy llwyddiannus a gyflawnwyd gan sefydliadau Cymreig.

Mae'r gwaith rhwng ein sefydliadau AU ac AB, yn ogystal ag ysgolion lleol, yn mynd o nerth i nerth cyn y diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) a cheir enghreifftiau da o gydweithio gwell rhwng AU ac AB mewn gweithgareddau arloesi ac ymgysylltu.

#### *Codio*

Dyrannwyd £1.2 miliwn o gyllid, drwy CCAUC, i gefnogi Prifysgolion Abertawe a Chaerdydd i fod rhan o'r Sefydliad Codio. Bydd y prifysgolion yn elwa o'r cyllid, a fydd yn cynnwys £200,000 i gefnogi mentrau codio mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Mae'r buddsoddiad hwn yn ychwanegol at Cracio'r Cod, ymgyrch gwerth £1.3 miliwn i gysylltu disgyblion Cymru â chodio, a gyhoeddwyd y llynedd.

#### *Cymru Fyd-eang*

Partneriaeth rhwng Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru (Isadran Materion Ewropeaidd ac Allanol, EPS, Masnach a Buddsoddi Cymru a Chroeso Cymru), Cyngor Prydeinig Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw Cymru Fyd-eang.

Dyrannwyd £3.5 miliwn dros dair blynedd i Cymru Fyd-eang II (2018-21) fel rhan o gyfran gyntaf dyraniadau Cronfa Bontio'r UE sy'n werth £50 miliwn, sydd â'r nod o helpu busnesau a gwasanaethau cyhoeddus ac eraill i baratoi ar gyfer effaith Brexit. Ariennir y prosiect drwy CCAUC. Ei nod fydd cynnal a thyfu cyfraniad allforio presennol AU Cymru, amrywio'r corff myfyrwyr rhyngwladol, gan wneud Cymru yn llai agored i amrywiadau mewn marchnadoedd unigol gan gynnwys yr UE a rhoi hwb i broffil rhyngwladol Cymru mewn marchnadoedd tramor allweddol.

## **2. Blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet a'r Prif Weinidog y cytunwyd arnynt**

Hyrwyddo a gwella llwybrau academiaidd a galwedigaethol i addysg uwch ac addysg bellach a thrwyddynt.

Mae gan Gymru yr holl elfennau sydd eu hangen arni i gystadlu â gwledydd medrus eraill, ond mae'n rhaid inni greu system addysg dechnegol sy'n gallu harneisio'r dalent honno a chynnig llwybrau i sgiliau lefel uwch. Ni all y Llywodraeth gyflawni hyn ar ei phen ei hun, mae'n rhaid cydweithio â chyflogwyr a darparwyr ôl-16 i fanteisio i'r eithaf ar dalent y wlad hon.

Rydym eisoes wedi buddsoddi mewn prentisiaethau ac mae'r ddogfen bolisi (a gyhoeddwyd yn 2017) yn atgyfnerthu ein dull gweithredu ennill wrth ddysgu. Bellach mae gennym gyfres o weithgareddau gan ddechrau gyda Phrentisiaethau Iau (i'r rhai rhwng 14-16 oed); Paratoi ar gyfer Prentisiaethau (16-18 oed mewn Addysg Bellach); Prentisiaethau a Phrentisiaethau Gradd (sy'n cael eu cyflwyno gan Ddarparwyr Addysg Uwch yng Nghymru).

Disgwylir i raglenni dysgu Addysg Bellach ddarparu llwybr dysgu dynodedig clir tuag at gyflogaeth neu ddysgu pellach/uwch er mwyn cynorthwyo dysgwyr i wneud y dewisiadau cywir. Caiff rhaglenni eu monitro'n ofalus a rhennir arfer gorau â rhanddeiliaid i sicrhau bod y cynnwys yn cyfateb i'r hyn mae cyflogwyr ei eisiau a'r hyn y mae dysgwyr ei angen er mwyn symud ymlaen i'r cam nesaf. Hefyd, cyflwynwyd Cronfa Datblygu Sgiliau sy'n werth £10 miliwn ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2018/19 i ganiatáu i'r sector Addysg Bellach ymateb i'r bylchau o ran sgiliau ar gyfer swyddi penodol a datblygu darpariaeth i fynd i'r afael â hynny, ar lefel ranbarthol, fel y nodwyd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Un o baramedrau allweddol y cyllid hwn yw mai dim ond darpariaeth a gefnogir gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol y gall colegau ei chyflwyno fel rhai sy'n berthnasol i gyflogwyr ar gyfer cyfleoedd yn y rhanbarth.

O ran mesur ein dull gweithredu, y bwriad yw monitro ein hunain yn erbyn dau faen prawf:

Yn gyntaf, pa mor effeithiol yr ydym o ran sicrhau bod hyfforddiant yn cyd-fynd ag anghenion yr economi er mwyn hybu cynhyrchiant a ffyniant. Mae gan y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol y dasg o ddadansoddi heriau economaidd a meysydd twf tebygol er mwyn canfod y sgiliau sydd eu hangen yn y gweithle. Byddwn yn defnyddio'r dadansoddiad yn eu Cynlluniau Blynyddol a'r data cysylltiedig i ddylanwadu ar y ddarpariaeth sgiliau ym mhob rhanbarth.

Yn ail, ein hymrwymiad o fewn Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Rydym wedi datgan y byddwn yn dileu'r bwlch rhwng Cymru a gweddill y DU ar bob lefel cymhwyster o fewn deng mlynedd, a sicrhau y byddwn fan leiaf yn cynnal ein perfformiad yn y dyfodol, o gymharu â gweddill y DU.

Fel rhan o set newydd o fesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16, mae swyddogion wrthi'n datblygu mesur ar gyfer cyrchfannau dysgwyr. Bydd hwn yn nodi

cyfran y dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg bellach a/neu gyflogaeth ar ôl gadael eu rhaglen astudio bob blwyddyn. Mae'r mesur yn defnyddio cofnodion addysg a chyflogaeth cyfatebol, a bydd y cofnodion cyflogaeth yn deillio o gymryd rhan yn rhaglen Canlyniadau Addysg Hydredol Llywodraeth y DU.

Disgwylir i'r ystadegau cyntaf ar y cyrchfannau ar gyfer dysgwyr a gwblhaodd eu dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16 gael eu cyhoeddi ym mis Medi 2018. Bydd y mesur yn destun ymgynghori â darparwyr dysgu ac Estyn cyn i'r fethodoleg gael ei chwblhau. Yn y dyfodol, bydd y data cyfatebol yn cynnig cyfleoedd sylweddol i ddadansoddi cyrchfannau, er enghraifft, dysgwyr sy'n astudio gwahanol bynciau a rhaglenni; y rhai o grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol; y rhai â nodweddion gwarchoddedig; a'r rhai â lefelau cyrhaeddiad gwahanol yng Nghyfnod Allweddol 4.

### Prentisiaethau gradd

Mae Prentisiaethau Gradd yn parhau i gael eu datblygu yng Nghymru – drwy bartneriaeth rhwng cyflogwyr a'r sector addysg dan arweiniad CCAUC. Darparwyd cyllid yn 2016-17 i alluogi sefydliadau i ddatblygu cymwysterau lefel gradd a allai gael eu hymgorffori i fframweithiau prentisiaethau. Yn 2018-19 dyrannwyd £3 miliwn i CCAUC i roi cam cyntaf y gwaith cyflawni ar waith yn y sectorau technoleg ddigidol a pheirianeg. Mae CCAUC wedi ceisio cynigion gan ddarparwyr ac ar hyn o bryd maent wrthi'n asesu ac yn ymateb i'r cynigion.

### Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes

Byddwn yn ehangu gorwelion pobl ac yn codi eu dyheadau drwy greu diwylliant deinamig ac entrepreneuriaid a sicrhau bod ganddynt gyfleoedd i dyfu a chyflawni mwy drwy gydol eu bywyd.

Mae sicrhau bod gan bawb yng Nghymru fynediad at y cyfleoedd a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu huchelgais yn hanfodol. Rydym wrthi'n cyflwyno cyfres o ddiwygiadau i sicrhau bod gennym system sy'n bodloni anghenion Cymru yn yr 21ain ganrif, i bobl ac i fusnesau.

Rydym wedi diwygio ein cefnogaeth i fyfyrwyr yn dilyn Adolygiad Diamond er mwyn cyflwyno'r system fwyaf hael yn y DU. Drwy fuddsoddi mewn gwell cefnogaeth ar gyfer astudio ôl-raddedig a rhan amser ochr yn ochr ag israddedigion llawn amser, rydym yn sicrhau bod y genhadaeth i ymestyn mynediad yn gallu ymateb i'r newidiadau cyson yn yr oes dechnoleg ac economaidd newydd.

## **3. Achredu hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon (HAGA)**

### Asesiad o effaith y penderfyniadau achredu HAGA ar Brifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru;

Nid yw Prifysgol Abertawe ar hyn o bryd yn ddarparwr addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru. Felly nid yw'r penderfyniad achredu yn effeithio ar ddarpariaeth addysg gychwynnol athrawon ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl canlyniad apêl Prifysgol De Cymru yn erbyn y penderfyniad achredu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin. Rydym yn disgwyl i Gyngor y Gweithlu Addysg fodloni ei oblygiadau statudol mewn perthynas â'r broses apelio.

Ar hyn o bryd mae'r mwyafrif helaeth o ddarpariaeth Prifysgol De Cymru ar lefel israddedig ar gyfer y rhai sy'n dymuno arbenigo mewn addysg gynradd. Mae yna nifer fach iawn o hyfforddeion hefyd ym Mhrifysgol De Cymru sy'n astudio cyrsiau israddedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth gyffredinol a chysiau ôl-raddedig mewn dylunio a thechnoleg.

#### Asesiad o geisiadau HAGA yn erbyn targedau ar gyfer mis Medi 2018

Mae ystadegau diweddaraf UCAS (ymgeiswyr fesul mis ar gyfer cylch 2018) yn awgrymu bod 120 yn llai o ymgeiswyr ôl-raddedig drwy'r system hon o gymharu â'r un adeg y llynedd. Ym mis Awst 2017 roedd 1,950 o ymgeiswyr (pob statws) ac ym mis Awst eleni mae 1,830 o ymgeiswyr yng Nghymru. Mae hyn oddeutu 6% yn llai. Mae dau fis ar ôl o gylch 2018 a dylid nodi nad oes rhaid i ymgeiswyr ôl-raddedig wneud cais drwy UCAS, ac mae llawer yn dewis gwneud cais yn uniongyrchol i'r darparwr.

Cyhoeddir data Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2019.

#### **4. Blaenoriaethu cymorth ar gyfer gwell cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant**

Yn unol â'r camau yn y Strategaeth Genedlaethol '*Ffyniant i Bawb*' ar gyfer model datblygu economaidd sy'n canolbwyntio ar ranbarth, roedd y Cynllun Gweithredu Economaidd yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer model datblygu economaidd sy'n canolbwyntio ar ranbarth yn seiliedig ar y tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol:

- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWEAB - RSP);
- Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru (RLSP);
- Partneriaeth Sgiliau Prifddinas Ranbarth Caerdydd (CCRSP).

Mae gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol rôl allweddol o ran cynhyrchu gwybodaeth ranbarthol wedi'i llywio gan gyflogwyr ac, o ganlyniad, maent wedi datblygu strategaethau cadarn i ymgysylltu â chyflogwyr i gasglu gwybodaeth am anghenion sgiliau'r rhanbarth ac, yn arbennig, yr anghenion sgiliau sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith rhanbarthol a sectorau blaenoriaeth. Cyflwynwyd Adroddiadau Blynyddol i Lywodraeth Cymru ar 20 Awst 2018 yn nodi'r sectorau economaidd allweddol sy'n llywio penderfyniadau cynllunio darparwyr ac yn darparu sylfaen gadarn o dystiolaeth i seilio penderfyniadau buddsoddi mewn sgiliau arni.

Mae yna enghreifftiau da o waith Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i hybu ac annog cysylltiadau rhwng cyflogwyr a'r sector addysg sydd hefyd yn llywio cynnwys eu Hadroddiadau Blynyddol. Mae gweithgaredd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru bellach yn ategu gwaith consortia ysgolion rhanbarthol Gogledd

Cymru – GwE – er mwyn cefnogi eu hymateb i “Dyfodol Llwyddiannus” drwy ddarparu mewnbwn dan arweiniad cyflogwyr i'r rhaglen Ysgolion Arloesi rhanbarthol. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd wedi bod yn rhan o ddatblygu modiwlau sy'n cyd-fynd â Rhaglen Dyfodol Llwyddiannus, gan rannu gwybodaeth â phartneriaid cyflenwi trawsffiniol yn ôl yr angen. Yn Ne-ddwyrain Cymru, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn gysylltiedig â sefydlu Addewid Caerdydd sy'n cefnogi pobl ifanc gyda chymorth, dewisiadau a chyfleoedd i fod yn llwyddiannus ac yn gynhyrchiol yn economaidd. Mae'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y ddinas i gysylltu plant a phobl ifanc â byd gwaith. Yn olaf, mae'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol wedi cychwyn prosiect pilot yn Ne-orllewin Cymru, gan ymgysylltu â phenaethiaid ysgolion cynradd ac uwchradd yn Sir Gaerfyrddin ac Abertawe, yn wreiddiol i godi ymwybyddiaeth o Fargen Ddinesig Bae Abertawe a'r cyfleoedd gyrfa a fydd ar gael fel rhan o'r prosiect. Bwriad y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol yw defnyddio hwn fel cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â disgyblion o fewn yr ardaloedd Awdurdod Lleol hynny cyn ei gyflwyno'n ehangach ar draws y rhanbarth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagweithiol hefyd wrth gefnogi Colegau AB i ariannu cyfarpar arloesol i fyfyrwyr ddysgu arnynt. Mae'r cyfarpar hwn ar gael mewn rhai colegau i fusnesau eu defnyddio i wella sgiliau eu staff presennol fin nos.

## **5. Ymestyn cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i addysg bellach a dysgu yn seiliedig ar waith**

Mewn ymateb i ymrwymiad penodol yn y Rhaglen Lywodraethu; mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol bellach yn gweithredu fel sefydliad ôl-16.

Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen tymor byr i adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch ac i ystyried a ddylid ymestyn cylch gwaith y Coleg i gynnwys addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Cyhoeddodd y grŵp ei adroddiad terfynol, gan gynnwys ei argymhellion ar 25 Gorffennaf 2017 a derbyniwyd yr argymhellion yn llawn, gan gynnwys ymestyn cylch gwaith y Coleg i bob sector ôl-16.

Yn ei llythyr cyllido ar gyfer 2018-19, ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion y grŵp ac fe'i gwnaed yn ofynnol i'r Coleg ryngweithio mwy ar unwaith â'r sectorau ôl-16 mewn meysydd lle roedd ganddynt ddylanwad, gallu ac arbenigedd. Cafodd dyraniad o £150,000 ei gynnwys yng nghytundeb cyllido 2018-19 i'r Coleg ehangu gweithgaredd mewn meysydd lle y byddai budd uniongyrchol i ddatblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Cyfanswm yr arian ar gyfer y Coleg yn 2018-19 yw £5.880 miliwn.

Fel rhan o'r rôl estynedig, sefydlwyd Grŵp Cyngori gan y Coleg gyda chynrychiolaeth o golegau addysg bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith i ystyried y chyfleoedd a'r heriau wrth gefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gan flaenoriaethu tri maes penodol: cefnogi staff presennol colegau a darparwyr hyfforddiant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg er mwyn dysgu'n ddwyieithog; datblygu adnoddau addysgu cyfrwng Cymraeg; a hyrwyddo'r chyfleoedd a'r manteision i ddysgwyr ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd y

grŵp cyngori ei adroddiad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ym mis Gorffennaf 2018.

Mae swyddogion yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Coleg i ddatblygu cynllun gweithredu manwl, gan ystyried y cyd-destun a dibyniaethau ehangach yn llawn. Bydd y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno i Weinidogion yn yr hydref.

Argymhellodd y grŵp annibynnol, a sefydlwyd i ystyried yr ehangu posibl ar gylch gwaith y Coleg, fod lle o fewn y gyllideb bresennol ac o ran gweithgareddau canolog y Coleg i wneud arbedion ac i ailgyfeirio ei waith a phennu ffocws newydd, pe bai rôl y Coleg yn cael ei hystyried i'r sector ôl-16. Nid oedd y Grŵp felly yn gweld bod angen cynnydd sylweddol o ran lefel staff canolog er mwyn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol.

Ar gyfer 2018-19, cafodd dyraniad o £150,000 ei gynnwys yn y cytundeb ariannu i'r Coleg ehangu gweithgaredd mewn meysydd lle y byddai budd uniongyrchol i ddatblygu darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg. Bydd y dyraniad ar gyfer 2019-20 yn dibynnu ar y blaenoriaethau a nodir yn y cynllun gweithredu ôl-16.

Yn ychwanegol at y gyllideb a ddarperir yn uniongyrchol i'r Coleg, mae cyllidebau ar draws Llywodraeth Cymru ac yn arbennig o fewn Is-adran y Gymraeg yn cefnogi datblygiad ôl-16 ac amcanion y cynllun ôl-16. Yr hyn y bydd y cynllun newydd yn ei gyflawni yw sicrhau bod yr holl gyllidebau a'r adnoddau a gyfeiriwyd at ddatblygiadau ôl-16 cyfrwng Cymraeg wedi'u targedu a bod ymyriadau yn cael eu blaenoriaethu i sicrhau'r effaith a'r gwerth gorau am arian.

Mae'n ofynnol i golegau addysg bellach gynllunio ar gyfer y cynnydd mewn darpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i ddarparu dilyniant ieithyddol i ddysgwyr sy'n symud ymlaen gyda'u dysgu o addysg statudol. Fan leiaf, mae angen i golegau ddarparu cymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a/neu Ddatblygiad Gofal Plant drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan gynyddu'r ddarpariaeth i gymwysterau llawn lle nad yw hynny eisoes ar gael. Mae Cynlluniau Cyflawni 2018/19 yn nodi bod ymrwymiad i sicrhau y gall dysgwyr mewn meysydd blaenoriaeth barhau gydag elfennau o'r dysgu neu'r holl ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Ochr yn ochr â'r ddarpariaeth brif ffrwd, mae angen i ddysgwyr gynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg wrth baratoi ar gyfer y gweithle. Yn gyffredinol, mae Colegau yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau a chodi ymwybyddiaeth o'r angen cynyddol am sgiliau dwyieithog.

Mae Sgiliaith, y sefydliad hyfforddi arbenigol, sydd wedi'i leoli yng Ngrŵp Llandrillo Menai yn derbyn arian grant Llywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant i diwtoriaid coleg ar ddysgu mewn lleoliad dwyieithog ac ymgorffori'r Gymraeg yn y cwricwlwm. Mae'n darparu ystod o hyfforddiant o sesiynau hanner diwrnod byr i fodiwl MA achrededig ar Fethodoleg Addysgu Dwyieithog. Yn ystod 2017/18 llwyddodd Sgiliaith i ragori ar y rhan fwyaf o'i dargedau ac mae'n llwyddo i ymgysylltu â thiworiaid sydd heb fynychu unrhyw hyfforddiant o'r blaen.



Mae Cymraeg Gwaith yn ei ail flwyddyn ac yn darparu gwersi Cymraeg i ddechreuwr hyd at y rhai ar lefel uwch ac mae'n canolbwyntio ei ymdrechion ar diwtoriaid y prif feysydd blaenoriaeth megis e.e. Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Hamdden a Thwristiaeth; Gweinyddu Busnes a TG; Amaethyddiaeth/Astudiaethau Tir ac Adeiladu. Mae tiwtoriaid hefyd yn cael cymorth unigol gan hyfforddwr Cymraeg penodol eu coleg gan eu galluogi i ddefnyddio'u sgiliau gyda dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth.

Ar draws yr ystod eang o ddisgyblaethau, ac yn arbennig ym meysydd y Gwyddorau a'r Gwyddorau Iechyd, mae'r cynnig cyfrwng Cymraeg gan brifysgolion wedi bod yn datblygu gyda chynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y pynciau a'r modiwlau sydd ar gael i fyfyrwyr eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn nifer fach o feysydd pwnc, bu gostyngiad yn y ddarpariaeth lle nad yw'r galw gan fyfyrwyr wedi galluogi'r sefydliad i gynnal y ddarpariaeth neu lle y bu newidiadau o ran staff ar lefel leol.

Cyhoeddwyd y datganiad ystadegol blynyddol ar y defnydd o'r Gymraeg mewn Addysg Uwch ar 26 Gorffennaf 2018. Roedd nifer y myfyrwyr sy'n astudio rhywfaint o'u gradd drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gostwng yn 2016/17 o 7,780 i 6,870. Fodd bynnag, mae bron i 6,000 o fyfyrwyr yn parhau i astudio o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2016/17; dyma'r nifer uchaf ond un o fyfyrwyr sy'n astudio yn y Gymraeg o fewn blwyddyn ers sefydlu'r Coleg.

Byddwn yn gofyn am eglurhad pellach ynglŷn â'r rhesymau sylfaenol am y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu hastudiaethau o 2015/16 i 2016/17. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Coleg ddarparu adroddiad manwl am y rhesymau sylfaenol dros y gostyngiad. (Mae'r arwyddion cychwynnol yn awgrymu bod cyfran sylweddol o'r newid o ganlyniad i'r modd y caiff y ddarpariaeth ei chofnodi).

## **6. Polisiâu ehangach Llywodraeth Cymru a chyllid yn ystod y flwyddyn**

### Cyllid a ddarparwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)

Gwnaed dyraniadau ychwanegol i CCAUC, sef cyfanswm o bron i £20 miliwn yn y flwyddyn ariannol 2017-18 gan gynnwys:

- i) £6.2 miliwn i alluogi CCAUC ddelio ag unrhyw oblygiadau tymor byr sy'n deillio o newidiadau demograffig a goblygiadau cychwynnol Brexit;
- ii) £1.8 miliwn i annog prifysgolion i ddatblygu gweithgareddau cysylltiedig â'u cenhadaeth ddinesig ymhellach;
- iii) £1.2 miliwn i gefnogi cyfranogiad prifysgolion Cymru yn y gwaith o sefydlu Sefydliad Codio, sy'n cynnwys £0.2 miliwn i alluogi gweithgaredd cenhadaeth ddinesig sy'n cefnogi mentrau codio mewn ysgolion, colegau, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phrifysgolion;
- iv) £1.7 miliwn i helpu lliniaru effaith y pwysau ar gyllideb CCAUC, yn benodol i helpu cynnal darpariaeth y celfyddydau perfformio;
- v) £3 miliwn i wella a chynyddu cydweithio rhwng AU ac AB, wrth i ni symud ymlaen gyda'r diwygiadau yn y sectorau hyfforddiant ac addysg ôl-orfodol; a

- vi) £5.9 miliwn o arian cyfalaf i ariannu prosiectau a fydd naill ai'n sbarduno arian cyfatebol allanol y mae'n rhaid cystadlu amdano yn uniongyrchol neu gynigion a fydd yn sbarduno neu'n cynyddu cyllid o ffynonellau mewnol.

Mae hyn yn golygu bod y dyraniad terfynol i CCAUC yn y flwyddyn ariannol 2017-18 fel a ganlyn:

	<b>2017-18</b>
Gwariant Refeniw CCAUC	114,242,000
Dibrisiant CCAUC	90,000
Gwariant Cyfalaf CCAUC	5,900,000
Cyfanswm	120,232,000

Gan adeiladu ar seiliau y dyraniad cyllid terfynol i CCAUC yn 17-18, rwyf wedi cadarnhau y bydd cyllid yn cynyddu yn 2018-19 i'r lefelau canlynol:

	<b>2018-19</b>
Gwariant Refeniw CCAUC	122,216,000
Dibrisiant CCAUC	90,000
Gwariant Cyfalaf CCAUC	10,000,000
Cyfanswm	132,306,000

Gwnaed darpariaeth o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru am adnodd cyfalaf gwerth £10 miliwn i'w ddyrannu yn 2018-19 i gefnogi cynigion gan sefydliadau sy'n hybu defnydd mwy effeithiol o'u hystadau. Dyrannwyd adnoddau cyfalaf i'r Cyngor Cyllido am y tair blynedd nesaf. Gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd mewn ymateb i lythyr cylch gwaith diwygiedig 2016-17, gofynnwyd i'r Cyngor ddatblygu cynllun a fydd yn helpu i leihau risgiau ariannol sefydliadol sy'n gysylltiedig â defnyddio ystadau. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor helpu sefydliadau i leihau lefel gwariant yn y dyfodol ar weithrediadau prifysgolion fel offeryn i baratoi sefydliadau ar gyfer diwygiadau rheoleiddiol ac ariannol sylweddol yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

#### Dyraniadau yn ystod y flwyddyn i ddarparwyr addysg bellach

Mewn ymateb i lai o gyllid gan San Steffan, bu gostyngiad o £34.868 miliwn yng nghyllid rheolaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector rhwng 2013/14 a 2015/16, sef gostyngiad o 11.25 y cant yn nhermau arian parod dros y cyfnod. Fodd bynnag, ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19, mae'r cyllid ar gyfer y sector AB wedi aros yn gymharol sefydlog. Cynyddodd y cyllid o 2.54 y cant yn 2017/18 sy'n cynnwys cynnydd o un y cant yn y gyfradd uned ac yn caniatáu ychydig o dwf cydnabyddedig. Ceir rhagor o fanylion am y dadansoddiad diweddaraf o incwm i'r sector AB yng Nghymru yn atodiad i.

Yn ychwanegol at y dyraniadau prif ffrwd, mae'r sector AB wedi cael £10 miliwn ychwanegol ar gyfer y Gronfa Datblygu Sgiliau. Cyflwynwyd y Gronfa Datblygu Sgiliau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19 i alluogi'r sector AB ymateb i a datblygu darpariaeth i fynd i'r afael â bylchau mewn sgiliau penodol i swydd, ar lefel ranbarthol, fel y nodwyd gan y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Mecanwaith yw'r Gronfa Datblygu Sgiliau i ailgyflwyno darpariaeth ran amser mewn modd a reolir, gan gydweithio'n agos â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod y rhain

yn diwallu anghenion cyflogwyr ym mhob rhanbarth. Ei nod hefyd yw cynyddu cyfleoedd cyflogaeth y rhai sy'n ddiwaith ac i gynyddu'r budd i economi Cymru o uwch-sgilio'r rhai mewn swyddi cyflog isel.

### Arian cyfalaf ar gyfer y Sector AB

Mae buddsoddi yn y sector AB yn parhau i fod yn elfen sylweddol o Fand A y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2014 a 2019. Mae swyddogion wedi gweithio gyda sefydliadau AB i ariannu cynlluniau mawr a rhai llai yn unol â blaenoriaethau sefydliadol. Ymysg y cynlluniau mawr sydd wedi denu cyllid mae Campws newydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn Heol Dumballs, Caerdydd a champws newydd ar gyfer safle Aberdâr Coleg y Cymoedd. Buddsoddwyd hefyd mewn cynlluniau adeiladau llai.

Yn 2018-19, dosbarthwyd £5 miliwn ymysg sefydliadau AB i fynd i'r afael ag ôl-groniad o faterion cynnal a chadw, gyda grant pellach o £5 miliwn i ariannu prynu offer safonol y diwydiant.

Rydym wedi bod yn cynllunio Band B y Rhaglen, sy'n rhedeg rhwng 2019 a 2024, ochr yn ochr â'n partneriaid cyflenwi yn y sector AB ers peth amser. Cyflwynodd sefydliadau AB eu Cynlluniau Amlinellol Strategol ar gyfer busddsoddiad Band B ym mis Gorffennaf 2017 a chafodd y rhain eu cymeradwyo mewn egwyddor i raddau helaeth, yn amodol ar achosion busnes boddhaol, ym mis Rhagfyr 2017. Rydym yn parhau i gefnogi'r sector i ddatblygu eu cynlluniau buddsoddi.

### Arian Pontio'r UE

#### **HERIO – Cyfleoedd Ymchwil ac Arloesi Addysg Uwch**

Rydym wedi cael cynnig gan CCAUC ar gyfer yr ail gyfran o arian Cronfa Pontio'r UE. Bwriad y cynnig (HERIO – Cyfleoedd Ymchwil ac Arloesi Addysg Uwch), sy'n gofyn am £4.5 miliwn dros dair blynedd, yw ymateb i golli arian yr UE ar gyfer ymchwil ac arloesi. Bydd yn meithrin y gallu sydd ei angen i helpu sylfaen ymchwil ac arloesi Cymru gystadlu a chael arian allanol ychwanegol ar yr adeg hollbwysig hon. Fe'i paratowyd gan CCAUC mewn cydweithrediad â Thîm Arloesi Llywodraeth Cymru a bydd yn cael ei gyflwyno ar y cyd gan y ddau sefydliad, wrth i ddiwygiadau fynd rhagddynt yn y sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol. Bydd cynigion yn cael eu hystyried gan Weinidogion ym mis Medi.

#### **Dyraniad Cymru Fyd-eang II**

Partneriaeth rhwng Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru (Is-Adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, EPS, Masnach a Buddsoddi Cymru a Chroeso Cymru), Cyngor Prydeinig Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw Cymru Fyd-eang. Ei nod yw cefnogi buddsoddiad yng Nghymru drwy feithrin mentrau cydweithredol drwy ymchwil i'r farchnad, casglu gwybodaeth, ymweliadau mewnol wedi'u targedu a chenadaethau allanol a mwy o weithgareddau hyrwyddo megis cyflwyno brand 'Astudio yng Nghymru' mewn marchnadoedd allweddol.

Mae Cymru Fyd-eang II (2018-21) wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer cyllid o £3.5 miliwn dros dair blynedd fel rhan o'r gyfran gyntaf o ddyraniadau o dan Gronfa Bontio'r UE. Bydd y prosiect yn cael ei ariannu drwy CCAUC, a fydd hefyd yn gyfrifol am adrodd ar gynnydd i Lywodraeth Cymru. Ei nod fydd cynnal a thyfu cyfraniad allforio presennol AU Cymru, amrywio'r corff myfyrwyr rhyngwladol, gan wneud Cymru yn llai agored i amrywiadau mewn marchnadoedd unigol gan gynnwys yr UE a rhoi hwb i broffil byd-eang Cymru mewn marchnadoedd tramor allweddol.

## **7. Cynnydd o ran diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yn dilyn ymgynghoriad yn y gwanwyn a'r haf, ac esboniad o'r camau nesaf**

Roedd y Papur Gwyn "*Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus*" yn nodi'r opsiynau a'r cynigion bras ar gyfer swyddogaethau arfaethedig y Comisiwn a'r ffordd y byddai o bosibl yn gweithio gyda gwahanol fathau o ddarparwyr dysgu. Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Paur Gwyn y llynedd, cyhoeddwyd dogfen ymgynghori dechnegol arall "*Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus – y camau nesaf*" ar 24 Ebrill. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ystyried yr adborth a gafwyd ac yn datblygu rhai o'r syniadau yn y Papur Gwyn ymhellach ac yn rhoi mwy o fanylion technegol o ran sut rydym yn rhagweld y bydd y Comisiwn newydd yn gweithredu. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 17 Gorffennaf a chafwyd cyfanswm o 422 o ymatebion. Yn gyffredinol, mae ymatebwyr yn parhau i fod yn gefnogol iawn i'r diwygiadau.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori technegol cynhaliwyd nifer o grwpiau ffocws â thema gyda rhanddeiliaid dethol. Roedd pob un yn ymdrin ag adran benodol o'r ymgynghoriad technegol a gwahodwyd rhanddeiliaid â diddordeb arbennig yn y meysydd hyn i fod yn bresennol. Yn ychwanegol, mae swyddogion hefyd wedi siarad mewn ystod o gyfarfodydd pwyllgorau cyrff cynrychioladol. Mae'r adborth o'r grwpiau ffocws a'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad technegol wrthi'n cael eu dadansoddi a'u hystyried yn ystod cam nesaf y broses deddfwriaethol, sef datblygu'r cyfarwyddiadau polisi i gyfreithwyr. Disgwylir i grynodedd o'r ymatebion gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn yr Hydref, gyda'r bwriad o gyflwyno cynigion deddfwriaethol yn nhymor y Cynulliad hwn.

## **8. Cyfle cyfartal i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a hyrwyddo addysg uwch iddynt**

### Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

Mae Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr addysg uwch sy'n dymuno i'w cyrsiau gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr ymrwmo i weithgareddau a buddsoddiadau i gefnogi amcanion sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad at addysg uwch a hyrwyddo addysg uwch. Yn y cyd-destun hwn, mae hybu cyfle cyfartal mewn cysylltiad â mynediad i addysg uwch yn ymwneud â dileu rhwystrau i addysg uwch sy'n wynebu aelodau o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae'n ofynnol i ddarparwyr addysg uwch nodi'r gweithgareddau a'r buddsoddiadau hyn mewn cynlluniau ffioedd a mynediad sy'n cael eu cyflwyno i Gyngor Cyllido Addysg Cymru i'w cymeradwyo. Mae Deddf 2015 yn adeiladu ar ddarpariaethau yn

Neddf Addysg Uwch 2004 a ddynododd CCAUC fel yr awdurdod perthnasol ar gyfer mynediad teg yng Nghymru.

Rhaid i gynllun ffioedd a mynediad nodi lefelau ffioedd, cyfanswm incwm ffioedd a ragwelir a chyfanswm y ffioedd y bwriedir eu buddsoddi gan sefydliad AU mewn cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo addysg uwch, yn unol â chanllawiau cynllun ffioedd a mynediad Llywodraeth Cymru.

## **Ehangu Mynediad**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ariannu nifer o raglenni i annog mwy o gyfranogiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol megis Rhaglen Ymestyn yn Ehangach a mesurau a gyflwynwyd yn Neddf Addysg Uwch 2015. Fodd bynnag, mae angen mwy o ddadansoddi ac ymchwil i ddeall y canlyniadau i ddysgwyr o wahanol gefndiroedd ac i sicrhau bod gan ddarparwyr Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynghori a chefnogi'r dysgwyr hyn i gyrraedd eu llawn botensial. Gan y bydd y Comisiwn newydd yn goruchwyllo'r holl sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, mae cyfle i wella'r trefniadau rhannu data presennol gyda ffocws ar ddewisiadau dysgwyr a gwneud penderfyniadau i ddarparu mewnwelediad o ran datblygu polisi i gefnogi ehangu mynediad.

Mae rhaglen ehangu mynediad rhanbarthol CCAUC 'Ymestyn yn Ehangach' yn cynnig cyfleoedd i godi sgiliau a dyheadau addysgol er mwyn annog myfyrwyr i ystyried gwneud cais i addysg uwch. Mae tair Partneriaeth Ranbarthol Ymestyn yn Ehangach yn darparu gweithgareddau sy'n annog dilyniant i ystod o ddarpariaeth AU, gan gynnwys darpariaeth feddygol.

Yn 2018-19, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i CCAUC weithio gyda swyddogion i ddatblygu rhaglen weithredu ar gyfer addysg uwch, sy'n ystyried y dyraniadau cyllid ychwanegol a ddarparwyd i'r Cyngor yn 2017-18 ac yn adeiladu ar y gwahanol feysydd gweithgaredd a gyflwynwyd mewn ymateb i adroddiad WISERD yn 2015 i'r Cyngor ar fynediad i addysg uwch yng Nghymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn i'r cynllun gweithredu fod ar waith erbyn mis Ionawr 2019.

### **9. Camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn cefnogi a hybu lles myfyrwyr**

Yn 2018-19, gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i CCAUC weithio gyda phartneriaid ar gryfhau'r dull o wella arferion diogelu a chydnerthedd, cefnogi mentrau gweithwyr a myfyrwyr sy'n mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, aflonyddu a ffactorau niweidiol eraill sy'n effeithio ar iechyd meddwl yn arbennig. Bydd CCAUC yn datblygu canllawiau, gan gynnwys rhannu arferion effeithiol â sefydliadau ar drais hunaniaeth gan ystyried Llywodraeth Cymru.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â Phrifysgolion yng Nghymru ac mae'n ymwybodol bod ein sefydliadau wedi ymrwymo i weithio i wella iechyd a lles meddyliol myfyrwyr a staff. Mae holl brifysgolion Cymru

yn adrodd ar ystod o ymyriadau a mentrau iechyd a lles meddyliol i gefnogi myfyrwyr a staff yn eu hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol.

Mewn trafodaethau gyda cholegau yn ystod tymor yr haf 2018, codwyd iechyd meddwl dysgwyr yn gyson fel un o'r prif heriau sy'n wynebu'r sector addysg bellach. Mewn crynodeb a baratowyd gan Rwydwaith Gwasanaethau Myfyrwyr colegau, tynnwyd sylw at faterion yn cynnwys gorbryder, iselder, mwy o achosion o hunan-niweidio, a materion yn ymwneud â bwlio (gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol). Yn dilyn y trafodaethau hyn, mae swyddogion wedi gwahodd Colegau Cymru i gyflwyno cynnig ar gyfer prosiect cymorth i helpu i feithrin gallu yn y sector addysg bellach i gefnogi dysgwyr sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl. Mae'r trafodaethau'n parhau, ond rhagwelir y bydd y gwaith yn debygol o gynnwys datblygu 'pecyn cymorth' canllawiau ac adnoddau hyfforddi ar gyfer staff y coleg.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu ['Fframwaith Colegau a Phrifysgolion Iach'](#) fel estyniad o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru mewn lleoliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Mae'r fframwaith wedi'i rannu'n chwe phwnc iechyd a phedair agwedd ar fywyd coleg a phrifysgol. Mae'r pynciau iechyd yn cwmpasu iechyd a lles meddyliol ac emosiynol, gweithgaredd corfforol, bwyd iach a chynaliadwy, defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, iechyd personol a rhywiol a pherthnasoedd, amgylchedd cynaliadwy.

## **10. Safbwynt Llywodraeth Cymru ar ad-drefnu addysg uwch**

Nid oes polisi ffurfiol ar gyfer ad-drefnu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi ac annog rhagor o gydweithio yn y sector AU, boed hynny drwy gysylltiadau strategol neu gydweithredu ffurfiol ar draws adrannau, i sicrhau darpariaeth AU gynaliadwy o ansawdd uchel. Bydd y diwygiadau i AHO hefyd yn sicrhau rhagor o gydweithredu ar daws AU, AB a Chweched Dosbarth.

## **11. Cyflawni – y cynlluniau a'r systemau sydd ar waith i sicrhau bod timau Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi addysg cyn ac ôl-16 yn gweithio gyda'i gilydd ar, ac yn cydlynu'r gwaith o gyflawni polisi Llywodraeth Cymru**

Mae ymrwymiad i ddatblygu a chyflawni polisi ar draws portffolios gweinidogol o fewn Llywodraeth Cymru ac mae trefniadau'n bodoli i sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ddilyn ar gyfer Addysg cyn ac ôl-16. Cynhelir trafodaethau rheolaidd rhwng Gweinidogion a swyddogion i sicrhau cysondeb o ran dull ac o ran datblygu polisiâu a chynhelir cyfarfodydd uwch dîm rheoli ar y cyd rhwng cyfarwyddiaethau i sicrhau bod uwch gydweithwyr ar draws yr holl faes addysg yn cael eu hysbysu am ddatblygiadau polisi ac yn rhan ohonynt. Gwelir tystiolaeth o weithio ar draws adrannau mewn gwell prosesau llunio polisi. Er enghraifft, mae Is-adran Addysg Uwch yn defnyddio'r data sydd ganddynt ar fyfyrwyr prifysgol i ddarparu dadansoddiad a thystiolaeth i'r Tîm Addysg Athrawon Cychwynnol. Mae cydweithio agos a thrafodaeth reolaidd am anghenion tystiolaeth wedi arwain at fireinio cyhoeddiadau ystadegol rheolaidd a darparu rhagor o ddadansoddi i lywio proses o werthuso a datblygu polisi Addysg Athrawon Cychwynnol.

Bydd hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach wrth inni roi ein diwygiadau i'r system Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ar waith fydd â'r nod penodol o wella'r pontio rhwng

gwahanol rannau o'r system addysg. Hyd yma, bu cysylltiad rhwng cydweithwyr ym maes addysg a thîm y Bil ers i'r Cabinet wneud y penderfyniad i ddod â darpariaeth chweched dosbarth o fewn cwmpas y Comisiwn newydd, a bydd y cysylltiad hwnnw'n parhau. Mae wedi cynnwys ymgysylltu parhaus â grŵp Partneriaeth yr Undeb.

Mae swyddogion o dîm Bil Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol wedi bod yn trafod â'u cydweithwyr EPS i sicrhau bod effaith y cynigion presennol ar gwricwla lleol 14-19 yn cael ei asesu. Mae cangen rheoli deddfwriaeth addysg sydd â throsolwg o'r holl ddeddfwriaeth EPS hefyd mewn cysylltiad â thîm y Bil Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i sicrhau bod datblygiadau yn cael eu rhannu a'u hystyried yn ôl yr angen.